Annwyl Gwsmer

**Swyddfa'r Post® Llandudno**
**101 Stryd Mostyn, Llandudno, LL30 2NY**

Rwyf yn ysgrifennu atoch i ddweud y byddwn yn newid y ffordd y gweithredwn Swyddfa'r Post Llandudno. O ddydd Iau 21 Chwefror 2019 bydd y gangen yn trosglwyddo i WHSmith High Street Ltd a fydd yn parhau i weithredu o'i eiddo presennol. Bydd ystod eang o wasanaethau yn dal i fod ar gael yn y gangen. Bydd yr oriau agor yn ymestyn i gynnwys prynhawn dydd Sadwrn a dydd Sul.

Mae'r newid hwn yn rhan o'r moderneiddio parhaus a wneir i rwydwaith Swyddfa'r Post. Ein blaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaethau a fydd yn bodloni anghenion cwsmeriaid, yn awr ac yn y dyfodol, a hynny mewn ffordd a fydd yn diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn Llandudno.

Mae WHSmith yn un o'r gwerthwyr llyfrau, nwyddau ysgrifennu a phapurau newydd mwyaf yn y DU gyda mwy na 1,400 o siopau, gyda chyrhaeddiad eang a phresenoldeb ar bron pob stryd fawr o bwys yn y DU. Bu WHSmith yn gweithredu Swyddfeydd Post yn llwyddiannus o fewn ei siopau ers 2007 ac ar hyn o bryd mae ganddo dros 130 o ganghennau sy'n cynnwys gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid ac mae eu staff hyfforddedig yn hybu cynhyrchion a gwasanaethau mewn awyrgylch modern.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**
Rydym wedi penderfynu mai trosglwyddo'r gangen hon i bartner manwerthu yw'r ffordd orau i redeg Swyddfa'r Post Llandudno. Rydym wedi darparu posteri i'w harddangos, a bydd taflenni gwybodaeth ar gael yn Swyddfa'r Post i roi gwybod i gwsmeriaid ac rydym wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr lleol. Os ydych yn gynrychiolydd lleol byddai'r ddefnyddiol pe medrech rannu'r wybodaeth hon gyda grwpiau a sefydliadau lleol y gwyddoch amdanynt o fewn eich cymuned, er enghraifft ar hysbysfyrddau, elusennau lleol a meddygfeydd, i helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr i ddeall beth sydd yn digwydd i Swyddfa'r Post yn Llandudno. Os hoffech gyflenwad o'r posteri hyn rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. Mae ein manylion cysylltu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Penderfyniad masnachol Swyddfa'r Post Cyf yw trosglwyddo rheoli'r gangen i bartner manwerthu yn hytrach na'i rheoli'n uniongyrchol ein hunain ac nid ydym yn ceisio adborth ar yr agwedd hon o'r newid. Fodd bynnag, rydym yn croesawu adborth a sylwadau a allai helpu i lywio ein cynlluniau, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- A oes gennych unrhyw sylwadau am fynediad i'r eiddo?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am fynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post y tu mewn i'r eiddo?

Byddwn yn derbyn sylwadau hyd at ddydd Mercher 28 Tachwedd 2018. Ni fyddwn yn anfon atebion at unigolion ond wrth i ni gwblhau ein cynlluniau ar gyfer y gangen bydd crynodeb o'r prif faterion a'n hymateb iddynt ar gael arlein ac yn y gangen.

Medrwch rannu'ch sylwadau am y newid arfaethedig drwy holidaur arlein hawdd a hwylus yn postofficeviews.co.uk. Pan ewch i'r wefan medrwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i ddod o hyd i'r gangen. Y cod unigryw ar gyfer y gangen hon yw **678614**.

Medrwch rannu'ch sylwadau hefyd drwy ebost, post neu dros y ffôn. Mae ein manylion cysylltu isod.

Diolch am ystyried ein cynlluniau. Ystyrir pob gwybodaeth a dderbyniwn wrth i ni gwblhau ein cynlluniau ar gyfer y gangen newydd.

Yn gywir



**Roger Gale**
**Cyfarwyddwr Rhwydwaith & Gwerthu**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth i Gwsmeriaid:
03457 22 33 44
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

RHADBOST Your Comments
**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Eisiau rhoi eich barn i ni yn y fan a'r lle – Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn ymroddedig i ddiogelu'ch preifatrwydd. Ceir gwybodaeth am y modd y gwnawn hyn ar ein gwefan yn postoffice.co.uk/privacy.

Sylwch y bydd eitemau a anfonir gyda Rhadbost yn cymryd 2 ddiwrnod gwaith i gyrraedd ac nid yw hyn yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Felly, gadewch ddigon o amser os gwelwch yn dda i'ch sylwadau gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori gan na fedrwn ystyried adborth sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiau cau.

Rydym yn ymroddedig i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Gwnawn hyn yn unol â'r Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol a gytunwyd gyda Chyngor Ar Bopeth, Citizens Advice Scotland a'r General Consumer Council ar gyfer Gogledd Iwerddon - y cyrff gwarchod annibynnol i ddefnyddwyr. Mae copi ar ddiwedd y llythyr hwn.

| Taflen wybodaeth Swyddfa’r Post Llandudno | | |
|---|---|---|
| **Oriau agor Swyddfa’r Post** | **Presennol** | **Newydd** |

| | Presennol | Newydd |
|---|---|---|
| Llun | 09:00 – 17:30 | 09:00 – 17:30 |
| Mawrth | 09:30 – 17:30 | 09:00 – 17:30 |
| Mercher | 09:00 – 17:30 | 09:00 – 17:30 |
| Iau | 09:00 – 17:30 | 09:00 – 17:30 |
| Gwener | 09:00 – 17:30 | 09:00 – 17:30 |
| Sadwrn | 09:00 – 12:30 | 09:00 – 17:30 |
| Sul | Ar gau | 10:30 – 14:30 |

| | |
|---|---|
| **Cynhyrchion & Gwasanaethau** | Bydd ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau yn dal i fod ar gael. |
| **Safleoedd gwasanaeth** | Mae pedwar safle gwasanaeth i gyd, un gyda sgrîn a thri sy’n gynllun-agored. Seiliwyd cyfanswm y safleoedd gwasanaeth ar lefelau busnes presennol a’r lefelau a ragwelir. |
| **Mynediad a chyfleusterau** | Mae dwy fynedfa i siop WHSmith ac mae ychydig o oleddf i’r ddwy ac mae drws awtomatig yn un o’r mynedfeydd. Ceir cownteri gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel a dolenni clyw. |
| **Manwerthu** | Deunyddiau ysgrifennu, llyfrau a newyddion |

**I gael y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print bras, sain neu braille ffoniwch 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

## Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol ar newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post

Rydym yn ymroddedig i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Mabwysiadir yr egwyddorion canlynol wrth gyfathrebu ynghylch newidiadau i'ch cangen leol o Swyddfa'r Post.

*Byddwn yn* ***Hysbysu*** *- pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau i:*

- Oriau agor
- Cau dros dro[1]/ torri ar wasanaeth dros dro
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro ar yr un safle
- Agor cangen newydd sydd heb gysylltiad â changen a gaewyd
- Y lleoliad a ddefnyddir gan Swyddfa Bost Deithiol o fewn cymuned

Byddwn yn dangos poster mewn cangen (neu gerllaw os yw'n briodol) i hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod gan roi pedair wythnos o rybudd. Os na ellir rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn darparu rhybudd cyn gynted ag a fedrwn. Yn achos cau dros dro byddwn yn cynnwys manylion canghennau cyfagos eraill o Swyddfa'r Post a rhifau llinell gymorth/ffôn tetsun cwsmeriaid.

*Byddwn yn* ***Ymgysylltu*** *- pan fyddwn yn ceisio adborth ar benderfyniad a wnaed ynghylch:*

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (pan fu'r angen ar gau am dros tri mis)
- Masnachfreintio cangen Rheolaeth Uniongyrchol yn ei safle presennol

Er y bydd y penderfyniad i fynd rhagom wedi'i wneud eisoes, byddwn yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid fel trefniadau mynediad a'r cynllun mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd ond os bydd amgylchiadau'n rhwystro hynny byddwn yn rhoi cymaint o rybudd ag sy'n bosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn arddangos poster yn y gangen ac yn rhoi gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol[2], y Cyrff Adfocatiaeth Defnyddwyr ac elusennau dethol[3], gan roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau mynediad yn y gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth gydag allfeydd cymunedol allweddol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd ayb). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltu ar-lein ac yn y gangen gan roi crynodeb o'r prif faterion a godwyd gydag ymateb clir yn achos unrhyw newidiadau a wneir i'n cynlluniau gwreiddiol.

*Byddwn yn* ***Ymgynghori*** *- pan fyddwn yn ceisio adborth ar gynigion cyn gwneud penderfyniad ar:*

- Gau cangen o Swyddfa'r Post yn barhaol[4]
- Adleoli cangen o Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen Rheolaeth Uniongyrchol i safle newydd)

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am chwe wythnos[5] gan roi gwybod i gwsmeriaid, Cyrff Adfocatiaeth Defnyddwyr ac elusennau dethol am y cynigiad. Bydd y wybodaeth hon hefyd ar gael ar-lein ac yn achos cangen Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth gydag allfeydd cymunedol allweddol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd ayb).

Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau penodol ar feysydd y buasem yn hoffi adborth ar fynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau pryd y bydd y newid yn digwydd os penderfynir ei weithredu. Byddwn yn darparu gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau ac am gyrraedd y gangen ac i mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac ystyrir y ffactorau canlynol wrth wneud ein penderfyniad, yr hyn y disgwyliwn ei wneud o fewn pedair wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben:

- Sut y gall cwsmeriaid gyrraedd, mynd i mewn i a symud o gwmpas y gangen/canghennau newydd neu wahanol a hynny gyda golwg arbennig ar gwsmeriaid agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol y gallai'r cynigiad effeithio arnynt neu a allai effeithio ar y cynigiad

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Adfocatiaeth Defnyddwyr a phawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad (lle bo'n ymarferol) i gadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gydag ateb clir i bob un. Bydd y wybodaeth hon hefyd ar gael ar-lein ac yn y gangen (lle bo'n bosibl).

***Cytunwyd yr Egwyddorion hyn gyda Chyngor ar Bopeth, Citizens Advice Scotland a'r General Consumer Council ar gyfer Gogledd Iwerddon; y cyrff gwarchod statudol annibynnol.***

*Beth i'w wneud os byddwch o'r farn nad yw'r Egwyddorion hyn wedi cael eu dilyn:*

Dewch i gysylltiad fel y medrwn ymchwilio i'ch cwyn. Byddwn yn egluro yn ein hateb a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu Cymunedol a rhoddwn i chi fanylion cysylltu'r corff gwarchod cwsmeriaid perthnasol (Cyngor ar Bopeth Advice, Citizens Advice Scotland neu'r Consumer Council ar gyfer Gogledd Iwerddon) os na fyddwch yn fodlon gyda'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn asesu'n annibynnol pa un a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau gweithredu yn sgîl yr achwyniad.

**postofficeviews.co.uk**
**comments@postoffice.co.uk**
**RHADBOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1]Byddwn yn darparu diweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os na fydd statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ymhen 12 mis.

[2] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt - Aelod Seneddol, Aelod o Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Wardiau, Cyngor Plwyf neu Gymuned.

[3] Elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedol Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir pawb a enwir yn 2 a 3 uchod i rannu gwybodaeth gyda grwpiau a sefydliadau lleol y maent o'r farn bod ganddynt ddiddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w cangen leol o Swyddfa'r Post.

[4] Mae'n bosibl y bydd nifer fechan o achosion lle nad oes gennym ddewis - oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth - ond cau cangen yn barhaol mewn lleoliad penodol. Yn yr achosion hyn bydd yr ymgynghoriad yn ceisio adborth ar wasanaethau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal.

[5] Os bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn ymestyn yr ymgynghoriad am wythnos galendr. Ni fyddwn yn cychwyn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y cyfnod o bythefnos sy'n cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.